# Papur Briffio 9

## Creu'r Cysylltiadau

## Etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol 2007

*"Rydym wedi dod i'r casgliad sylfaenol fod gan Gymru gyfle gwych, yn deillio'n rhannol o'i thraddodiadau ac yn rhannol o'i maint, i arwain y ffordd yn yr hyn yr ydym ni'n ei alw'n 'llywodraethu gwlad fach'."*

Syr Jeremy Beecham
Ar Draws Ffiniau 2006

Save the Children
Achub y Plant

Promoting Children's Rights
TROS GYNNAL
Hawliau Plant

NCH CYMRU

NSPCC
Dim mwy o greulondeb i blant. DIM.
Cruelty to children must stop. FULL STOP.

Barnardo's Cymru
RHOI'R DYFODOL YN ÔL I'N PLANT
GIVING CHILDREN BACK THEIR FUTURE

# Creu'r Cysylltiadau

Rydym yn cefnogi'r dull o gael gwerth o wariant ar wasanaethau cyhoeddus drwy'r model ar gyfer cydweithio, cydweithredu a chydgysylltu asiantaethau'n effeithiol ar draws y sector plant.

## Beth sydd wedi'i gyflawni ers 2003?

Roedd y datganiad Creu'r Cysylltiadau[1] a gyhoeddwyd yn Hydref 2004 yn nodi gweledigaeth glir ar gyfer rhagoriaeth mewn gwasanaethau cyhoeddus yn seiliedig ar y pedair egwyddor isod:

- Rhoi dinasyddion yn y canol
- Cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol
- Gweithio gyda'n gilydd fel Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru
- Gwerth am arian

Roedd Adolygiad Beecham[2] a gyhoeddwyd yn 2006 yn cydnabod y cryfderau ym mholisi a strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ond yn tynnu sylw at y diffygion o ran y dull o ddarparu. Roedd yn dangos bod angen newid cyflymach mewn arferion trefniadol yng Nghymru, gyda mwy o weithio ar draws ffiniau ac ar draws asiantaethau, os ydym i sicrhau gwelliannau o ran y dull o ddarparu gwasanaethau.

Ym mis Tachwedd 2006, cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad "Creu'r Cysylltiadau – Cyflenwi ar Draws Ffiniau"[3] sy'n gosod y camau i'w cymryd (yng ngoleuni Adroddiad Beecham) "i gyrraedd ein nod yn gynt, sef gweddnewid y ffordd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu a phrofiad pawb sy'n eu defnyddio". Yn y ddogfen, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn hyrwyddo symudiad clir o "ethos y **sector** gyhoeddus sy'n gyfyngedig i ffiniau gwasanaeth neu broffesiynol penodol i ethos **gwasanaeth** cyhoeddus sy'n seiliedig ar hyrwyddo ansawdd a chydraddoldeb". Mae hyn yn amlwg yn rhoi anghenion pobl sy'n derbyn gwasanaethau cyhoeddus uwchben anghenion y sefydliadau sy'n eu darparu ac mae hwn yn agwedd yr ydym yn ei groesawu'n fawr.

Yn fuan yn 2007/08, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru am weld sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau lleol yn dechrau sefydlu Byrddau Gwasanaethau Lleol newydd i arwain ar y gwaith o gyflawni eu strategaeth gymunedol a blaenoriaethau strategol cenedlaethol y cytunwyd arnynt ar draws y sectorau. Nid bwriad y Byrddau Gwasanaethau Lleol hyn fydd disodli'r partneriaethau allweddol sydd eisoes yn bodoli ond yn hytrach "hwy fydd y canolbwynt y gall y partneriaethau eraill hyn weithredu o'u cwmpas".

Ym mis Ionawr 2007, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru y ddogfen "Grymuso Dinasyddion Gweithredol i gyfrannu at Gymru"[4] i ymgynghori arni. Mae'n amlinellu ei diddordeb yn y Trydydd Sector yng Nghymru, a'i

[1] Creu'r Cysylltiadau: Gwell Gwasanaethau i Gymru (2004) Llywodraeth Cynulliad Cymru
[2] Ar Draws Ffiniau – Adolygiad o'r Gwasanaethau a Ddarperir yn Lleol (Adolygiad Beecham) (2006) Llywodraeth Cynulliad Cymru
[3] Creu'r Cysylltiadau – Cyflenwi ar Draws Ffiniau – Gweddnewid Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru (2006) Llywodraeth y Cynulliad
[4] Grymuso Dinasyddion Gweithredol i gyfrannu at Gymru: Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Cynllun y Sector Gwirfoddol (2007) Llywodraeth y Cynulliad

gweledigaeth ar gyfer y Sector, yng nghyd-destun agenda Creu'r Cysylltiadau.

## Beth yw ein pryderon presennol?

Er bod potensial i ddarparu gwasanaethau rhagorol, ni wireddwyd hynny'n lleol. Mae gormod o blant a phobl ifanc sydd dan anfantais ac yn agored i niwed, yn ogystal â'u teuluoedd, sy'n dal i dderbyn gwasanaethau lleol sydd heb fod yn ddigon da. Mewn gormod o leoedd, mae'r rhagolygon am welliannau i wasanaethau yn dal i fod yn anaddawol, yn ôl ein hasesiadau.

Mae dulliau lleol o gomisiynu gwasanaethau ar gyfer plant difreintiedig sy'n agored i niwed yn amrywiol ac yn amlygu dibyniaeth gynyddol ar dendro cystadleuol fel model i ddyrannu adnoddau ar gyfer darparu gwasanaethau. Mae'n bosibl na fydd y pwyslais ar y dull gweithredu hwn yn sicrhau'r defnydd gorau o adnoddau, nac yn hwyluso cydweithio ar draws ffiniau a sectorau i ddatblygu, dylunio ac adeiladu gwasanaethau cynaliadwy mewn partneriaeth â'r sector gwirfoddol.

## Argymhellion

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i:

- Barhau i gadarnhau pwysigrwydd gweithio ar draws ffiniau a sectorau ar lefel leol fel sbardun i wella'r gwasanaethau arbenigol sydd ar gael i blant a phobl ifanc difreintiedig sy'n agored i niwed, a'u teuluoedd.
- Hyrwyddo a monitro perfformiad partneriaethau lleol i sicrhau eu bod yn edrych tuag allan gan ganolbwyntio ar sicrhau gwell canlyniadau o wasanaethau ar gyfer dinasyddion. Credwn y bydd sefydlu Byrddau Gwasanaethau Lleol yn helpu i yrru'r agenda hwn yn ei flaen
- Dangos bod angen i wasanaethau lleol wella'n gyflymach drwy fod yn barotach i ymyrryd lle na cheir cynnydd yn lleol.
- Hyrwyddo comisiynu deallus ar lefel leol drwy lunio canllawiau clir ar gaffael sy'n ymwneud â mabwysiadu dulliau sy'n amgenach na thendro cystadleuol cyfyngedig. Mae papur Asiantaeth Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol "Tueddiadau Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Plant mewn Angen" yn darparu dadansoddiad defnyddiol sy'n profi bod angen comisiynu strategol effeithiol ar gyfer gwasanaethau plant.
- Symleiddio'r systemau cyd-arolygu ymhellach a datblygu prosesau i graffu ar ddulliau darparu sy'n cynnwys rhanddeiliaid.
- Dadlau dros y pwysigrwydd o gael economi gymysg o ddarparwyr ar gyfer yr agenda gwella, ac annog comisiynwyr lleol i gydnabod mor bwysig yw cael adennill yr holl gostau a sicrhau chwarae teg.

# MANYLION CYSWLLT

**BARNARDO'S CYMRU**
ANDY JAMES, CYFARWYDDWR CYNORTHWYOL, POLISI
Ffôn: 01792 463357
E-bost: andy.james@barnardos.org.uk

**NCH CYMRU**
JAYNE ISAAC, SWYDDOG POLISI CYHOEDDUS
Ffôn: 029 20 222127
E-bost: jayne.isaac@nch.org.uk

**NSPCC**
SIMON JONES, CYNGHORYDD POLISI CYMRU
Ffôn: 029 20 267000
E-bost: simonjones@nspcc.org.uk

**ACHUB Y PLANT**
ANNE CROWLEY, UWCH GYNGHORYDD POLISI
Ffôn: 029 20 396838
E-bost: a.crowley@savethechildren.org.uk

**TROS GYNNAL**
JACKIE MURPHY, CYFARWYDDWR CYNORTHWYOL
Ffôn: 029 20 396974
E-bost: jackie.murphy@trosgynnal.org.uk

**Cefnogwyd y papur briffio hwn gan Plant yng Nghymru**